# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11126

# 311

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

Atebodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y 5 cwestiwn cyntaf am 15 munud olaf y sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.48

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

Dechreuodd yr eitem am 15.07

**NDM7527** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheolau Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i

NNDM7522, NNDM7525, NNDM7526 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 15 Rhagfyr 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

Dechreuodd yr eitem am 15.08

**NDM7524** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheolau Sefydlog 12.20(i), 12.22 (i) a’r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy’n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu’r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM7523 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 15 Rhagfyr 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 15.09 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Llywydd.**

# 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg: Cyhoeddi polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd - Gohiriwyd

Gohiriwyd yr eitem hon

# 4 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd: Diwedd Cyfnod Pontio'r UE

Dechreuodd yr eitem am 15.19

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.24, cafodd eitemau 5-7 eu grwpio ar gyfer dadl, ond gyda phleidleisiau ar wahân.**

## 5 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 15.49

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7512** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 9 | 13 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 15.49

**NDM7516** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) (Diwygio) 2020

Dechreuodd yr eitem am 15.49

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7526** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) (Diwygio) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Rhagfyr 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 8 | 5 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 8 Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.14

**NDM7522** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Rhagfyr 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Mangre Ysgol a Mangre Sefydliad Addysg bellach) (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.21

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7525** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Mangre Ysgol a Mangre Sefydliad Addysg Bellach) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Rhagfyr 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 12 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 10 Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.40

**NDM7509** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2020 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.44

**NDM7508** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 12 Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.46

**NDM7507** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.24, cafodd eitemau 13-14 eu grwpio ar gyfer dadl, ond gyda phleidleisiau ar wahân.**

## 13 Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.49

**NDM7511** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 14 Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.49

**NDM7510** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 15 Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.57

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7506** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 9 | 5 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 17.00 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Dirprwy Lywydd.**

## 16 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach - Gohiriwyd

Gohiriwyd yr eitem hon

## 17 Dadl: Cyfyngiadau Coronafeirws Newydd

Dechreuodd yr eitem am 17.13

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7523** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 11 Rhagfyr 2020 ynghylch lefelau newydd o gyfyngiadau i ymateb i bandemig y coronafeirws yng Nghymru.

Datganiad Ysgrifenedig: Diweddaru'r cynllun rheoli COVID-19 yng Nghymru - 11 Rhagfyr 2020

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23(iii), ni ddetholwyd gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd i'r cynnig.**

**Gwelliant 3** Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod lefelau newydd y cyfyngiadau'n anghymesur ac yn niweidiol i fusnesau a bywoliaethau ar draws Cymru.

**Cyd-gyflwynwyr**

Mark Reckless

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 1 | 46 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4** Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi dilyn strategaeth COVID-19 wahanol i un Llywodraeth y DU.

**Cyd-gyflwynwyr**

Mark Reckless

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 1 | 47 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23(iii), ni ddetholwyd gwelliant 5 a gyflwynwyd i'r cynnig.**

**Gwelliant 6** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cyhoeddiad am lefelau rhybudd newydd yng Nghymru sy'n caniatáu ar gyfer rhoi cyfyngiadau ar waith ar lefel ranbarthol a lleol mewn ymateb i'r dystiolaeth

wyddonol a'r gwahaniaethau o ran lefelau heintio coronafeirws mewn gwahanol rannau o'r wlad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 9 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am sicrhau bod cyfyngiadau a chymorth ynysu yn adlewyrchu, cymaint â phosibl, y gwahanol lefelau parhaus o haint mewn gwahanol ranbarthau yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 32 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23(iii), ni ddetholwyd gwelliant 8 a gyflwynwyd i'r cynnig.**

**Gwelliant 9** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer ailagor sectorau allweddol yn ddiogel fel lleoliadau lletygarwch, diwylliant a chwaraeon yn seiliedig ar ymgysylltu uniongyrchol rhwng cynrychiolwyr y sector a chynghorwyr gwyddonol Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 1 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 9.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7523** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 11 Rhagfyr 2020 ynghylch lefelau newydd o gyfyngiadau i ymateb i bandemig y coronafeirws yng Nghymru.

2. Yn croesawu'r cyhoeddiad am lefelau rhybudd newydd yng Nghymru sy'n caniatáu ar gyfer rhoi cyfyngiadau ar waith ar lefel ranbarthol a lleol mewn ymateb i'r dystiolaeth wyddonol a'r gwahaniaethau o ran lefelau heintio coronafeirws mewn gwahanol rannau o'r wlad.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer ailagor sectorau allweddol yn ddiogel fel lleoliadau lletygarwch, diwylliant a chwaraeon yn seiliedig ar ymgysylltu uniongyrchol rhwng cynrychiolwyr y sector a chynghorwyr gwyddonol Llywodraeth Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 1 | 5 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## Yn unol â Rheol Sefydlog 12.24, cafodd eitemau 18-19 eu grwpio gyda'i gilydd ar gyfer dadl ond gyda phleidleisiau ar wahân.

## 18 Egwyddorion Cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 18.29

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7513** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Gosodwyd y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 6 Gorffennaf 2020.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gerbron y Senedd ar 4 Rhagfyr 2020.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23(iii), ni ddetholwyd gwelliant 1 a gyflwynwyd i'r cynnig.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 1 | 10 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 19 Y Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 18.29

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7514 Rebecca Evans (Gwyr)**

Cynnig bod y Senedd, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 8 | 6 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 20 Cyfnod pleidleisio

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 19.49 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro er mwyn caniatáu egwyl technegol cyn y cyfnod pleidleisio.**

Dechreuodd yr eitem am 19.58

Daeth y cyfarfod i ben am 20.09

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 16 Rhagfyr 2020**